O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 1550 (Cy. 179)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Gwahanol Fannau rhwng Llanfair-ym-Muallt a'r Drenewydd, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *20 Mehefin 2011* |
| *Yn dod i rym* | *1 Gorffennaf 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Gorffennaf 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Gwahanol Fannau rhwng Llanfair-ym-Muallt a'r Drenewydd, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 1 Gorffennaf 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr “y darnau o’r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw'r darnau hynny o Gefnffordd yr A483 rhwng Llanfair-ym-Muallt a'r Drenewydd yn Sir Powys, a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.